

## Ysgolion a COVID-19 – Gwybodaeth i Rieni

### **1. Gaf i siarad â rhieni eraill ar yr iard?**

Cewch, ond mae'n bwysig iawn cadw at y rheol pellter cymdeithasol 2m ar yr iard, yn ogystal ag ym mhobman arall. Gwyddom ei bod yn demtasiwn mawr cyfarch pobl nad ydych wedi'u gweld ers amser maith gyda chwtsh neu gusan, neu i ymuno â sgwrs gyda grŵp o rieni, ond mae COVID-19 yn dal gyda ni. Hyd yn oed os ydych yn gwisgo masg, mae ymbellhau cymdeithasol yn hanfodol.

### **2. A fydd fy mhlentyn yn gwneud Addysg Gorfforol?**

Bydd, mae AG yn bwysig iawn i blant, ond bydd gwersi'n cael eu haddasu i leihau'r risg o ledaeniad COVID-19. Gallwch wneud pethau'n haws drwy wirio pa bryd y mae gan eich plentyn wersi AG a gwneud yn siŵr eu bod yn mynd i'r ysgol yn eu cit AG ar y diwrnodiau hynny.

### **3. A yw plant yn cael mynd i'r ysgol gydag annwyd?**

Os nad oes gan blentyn symptomau o COVID-19 ond os oes ganddo symptomau annwyd eraill fel trwyn yn rhedeg, nid oes rhaid iddo gael prawf ac nid oes rhaid iddo na chi hunan-nysu. Gall eich plentyn fynd i'r ysgol os yw'n ddigon iach i wneud hynny.

### **4. A yw plant yn cael mynd i'r ysgol os oes gan riant, brawd neu chwaer neu unrhyw un arall sy'n byw gyda nhw symptomau o COVID-19?**

Os yw plentyn/rhiant/rhywun sy'n byw yn y tŷ yn datblygu symptomau o COVID-19, **mae'n rhaid i bawb sy'n byw yn y tŷ hunan-ynysu yn syth a dylid archebu prawf ar gyfer yr unigolyn sydd â symptomau.** Nid oes angen profi pawb sy'n byw yn y tŷ os nad ydynt yn dangos symptomau.

Symptomau COVID-19 yw:

- peswch newydd, parhaus
- tymheredd uchel
- colli synnwyr o flas neu arogl

### **5. A yw plant yn cael mynd i'r ysgol os ydynt wedi bod mewn cysylltiad â rhywun nad ydynt yn byw gyda nhw ond sydd â symptomau COVID-19?**

Os yw plentyn wedi bod mewn "cysylltiad" gyda rhywun sy'n profi symptomau, dylent barhau fel yr arfer tan y bydd yr unigolyn hwnnw yn derbyn canlyniadau ei brawf. Os yw'n bositif, bydd y Tîm TTP yn cysylltu â phobl yr adnabyddir fel cysylltiadau.

Mae cyswllt yn golygu:

- cyswllt wyneb i wyneb gyda rhywun llai na 1 medr i ffwrdd (gan gynnwys pan fyddwch yn gwisgo gorchudd wyneb neu fasg)
- treulio mwy na 15 munud o fewn 2 fedr o rywun
- teithio mewn car gyda rhywun (hyd yn oed ar daith fer)

## **6. Beth sy'n digwydd os oes gan yr ysgol achos positif o COVID-19?**

Pan fydd achos positif o COVID-19 yn cael ei adnabod sy'n mynychu lleoliad addysgol neu leoliad gofal plant (staff neu ddisgybl), bydd cyswllt yn cael ei wneud gyda'r achos (neu'r rhiant) i asesu a fynychodd y plentyn yr ysgol yn ystod ei gyfnod heintus ac i ganfod a oes angen olrhain cysylltiadau pellach yn yr ysgol. Os oes unrhyw aelod o staff neu blentyn yn gyswllt i'r achos, bydd rhaid iddynt hunan-ynysu am 14 diwrnod a bydd y tîm Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) lleol neu'r Adran Addysg yn cysylltu. Os nad yw aelod o staff neu blentyn yn yr ysgol yn cael ei adnabod fel cyswllt, ni fydd rhaid iddynt hunan-ynysu.

## **7. Archebu prawf COVID-19:**

Dim ond pobl sydd â symptomau (peswch newydd a pharhaus, tymheredd uchel, neu golli neu newid yn y synnwyr o flas neu arogl) y dylai gael prawf.

Gellir trefnu prawf drwy'r [Porth](#), neu drwy alw 199. Mae profion ar gael yn bersonol neu gyda phe cyn profi cartref sy'n cael ei ddsbarthu i'ch cartref a'i gasglu oddi yno. Mae'r prawf yn swab gwddf neu'n swab gwddf a thrwyn cyfunol.

Mae rhai pobl yn cael traferth cael gafael ar brofion. Efallai y bydd eich tîm TTP yn gallu cynorthwyo os ydych yn cael traferthion.

## **8. Hunan-ynysu:**

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 ac unrhyw un sy'n byw gyda nhw hunan-ynysu, hyd yn oed os nad yw'r symptomau'n ddrwg.

Mae'n rhaid i chi beidio â mynd i'r ysgol, meithrinfa, lleoliadau gofal plant eraill, gwaith na lleoedd fel meddygfeydd, fferyllfeydd neu ysbytai.

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd â symptomau hunan-ynysu am 10 diwrnod o pan ddechreuodd eu symptomau. Gallent ddychwelyd i'r ysgol neu'r gwaith ar ôl 10 diwrnod os ydynt yn ddigon iach i wneud hynny.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n byw yn y tŷ ond sydd ddim yn dangos symptomau hunan-ynysu am 14 diwrnod o bryd y dechreuodd y person cyntaf yn y tŷ ddangos symptomau.

Dim ond ar gyfer pobl sydd â symptomau fydd angen prawf. Ni ddylai pobl heb symptomau gael prawf.

**Nid yw** derbyn prawf negyddol pan ydych yn gyswllt i achos yn lleihau'r cyfnod ynysu, bydd dal yn ofynnol i chi ynysu am 14 diwrnod os ydych yn gyswllt sydd wedi ei gadarnhau i achos positif.

Os yw rhiant yn credu bod gan ei blentyn symptomau OND yn dewis peidio â rhoi prawf iddynt, mae'n rhaid i bawb sy'n byw gyda nhw hunan-ynysu am 14 diwrnod o ddechrau'r symptomau.

Os ydych yn derbyn canlyniad prawf positif, bydd y tîm TTP yn cysylltu gyda chi.

Os yw'r unigolyn sy'n dangos symptomau yn cael canlyniadau prawf negyddol, gall hunanynysu orffen i bawb, gall plant ddychwelyd i'r ysgol a gall rhieni ddychwelyd i'r gwaith os ydynt yn ddigon iach i wneud hynny a chyn belled â nad oes unrhyw un sy'n byw yn eu tŷ wedi datblygu symptomau.